## Gair bach gan ficer Dolwyddelan

Annwyl Ffrindiau,

Mae Tachwedd yn fis digalon. Mae’n fis perffaith i’r rheiny ohonom sydd wrth ein bodd yn cau’r llenni, yn pentyrru coed ar danllwyth o dân ac yn croesawu’r gath i swatio’n fodlon ar ein glin. Mae’n fis mwy digalon fyth eleni gan fod cymaint yr hoffem roi diwedd arno. Mae’r byd yn parhau i ddangos casineb at ei hun a’i gymydog. Rwyf mewn ‘helynt’ yn ystyr Gwyddelig y gair. Mae fy nghalon mewn gofid yn sgil y brwydro a’r trais parhaus sy’n ymddangos fel pe na bai byth yn dod i ben. Pryd fyddwn ni’n dysgu i fyw mewn hedd a gadael i bobl eraill fyw mewn hedd hefyd?

Dydy’r brwydro rydym ni’n gweld yn datblygu yn Y Wlad Sanctaidd ddim yn beth newydd, ond eto mae’n erchyll i’r rheiny sy’n ei wynebu. Rydym yn paratoi unwaith eto eleni i gofio am enedigaeth Iesu Grist, ymgnawdoliad o’r hyn y mae Duw yn ei gyflawni yn ein plith bob amser, ar ffurf ddynol, i mewn i wlad sydd wedi’i meddiannu. A phlentyn sy’n eu harwain. Mae’n ymddangos nad oes llawer wedi newid. Beth allwn ni ei wneud o bellter o’r fath? Mae’n teimlo’n bechadurus eleni inni ganu caneuon megis ‘Dawel nos, Sanctaidd yw’r nos, Cwsg a gerdd waun a rhos.’ neu ‘O dawel ddinas Bethlehem, o mor llonydd yr wyt'. Mae’r Wlad Sanctaidd yn bell o fod yn Dawel neu Lonydd. Ond rwyf o’r farn ei fod yn bwysicach nac erioed i gofio er y drasiedi ddynol gallwn barhau i gynnig ymdeimlad o obaith y byddai’r dyfodol yn wahanol. Mae’n rhaid inni beidio ag ildio i derfysg neu drais y mae eraill yn credu sydd naill ai’n angenrheidiol neu’n gyfiawn. Rhaid inni ychwaith beidio â chael ein hudo gan leisiau’r pwerus tybiedig. Geiriau rhwydd o ystafell fyw (gymharol) gynnes yng Ngogledd Cymru. Dydy hi ddim mor rhwydd eu rhoi ar waith, yn enwedig pan gân nhw eu herlid am godi eu llais pan fo eraill yn diraddio neu’n dad-ddyneiddio. Canfod trydedd ffordd pan fo opsiynau deuaidd yn ymddangos wedi’u gwrthwynebu’n llwyr. Parhau i fod yn bleidiol gadarn ar ran heddwch. Digon yw digon. Ond mae’n dal yn parhau.

Mae’n rhaid imi ddal ati i obeithio bod rhai fyddai’n awyddus i roi diwedd ar y trais hwn. Bod rhai sy’n dal yn fodlon gydweithio gyda’u cymdogion i ganfod atebion i holl broblemau’r byd. Mae’n rhaid imi barhau i obeithio pan fo’r rheiny sydd wedi dioddef ar draul eu gelynion yn codi eu llais gan ddweud ‘dyna ddigon’ yn hytrach na bwrw iddi gyda chylch arall o ddial. Mae gennyf obaith y byddai cenhedloedd sydd wedi cyd-fyw yn heddychlon yn gwneud hynny eto. Mewn byd sy’n dyheu am gleddyf y pwerus i waredu’r gormeswyr, y barus neu’r drwg, ein plant sy’n dioddef poen y byd. Gallwn ddathlu genedigaeth plentyn. Yn enwedig ar adegau mwyaf trist y flwyddyn ac ein bywydau, mae’n rhaid inni gofio bod llygedyn o obaith. Os ydych chi’n ei chael hi’n anodd gweld llygedyn o obaith yn ystod yr adfent cadwch lygaid am y Holy Land Trust – mudiad anwleidyddol sy’n ymgyrchu dros heddwch rhwng cymdogion yn y Wlad Sanctaidd.

Pob bendith ichi ar gyfer yr Adfent, y Nadolig a’r Flwyddyn Newydd.

Stuart Elliott.